Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Clydau
# Tregryn
# Llanfyrnach
# Sir Benfro
# SA35 0BE

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2016

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1:** **Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2:** **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3:** **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/08/2016**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Clydau yn ysgol gynradd gymunedol sy’n gwasanaethu pentrefi Tegryn, Bwlchygroes, Llwyndrain, Llanfyrnach a Chilrhedyn yng ngogledd Sir Benfro. Cymraeg yw’r prif gyfrwng dysgu a chyflwynir Saesneg yn ffurfiol ar ddechrau cyfnod allweddol 2.

Mae 69 o ddisgyblion amser llawn ar gofrestr yr ysgol, yn cynnwys wyth oed meithrin. Addysgir y disgyblion mewn 3 dosbarth oed cymysg. Daw tua hanner o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg fel prif iaith. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd o gefndir ethnig ac mae tua 15% yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae oddeutu 19% ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd yn barhaol ym mis Medi 2015 yn dilyn cyfnod o arwain dros dro am dair blynedd cyn hynny. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2009.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Clydau yn 2015-2016 yw £4,415. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Sir Benfro yw £6,208 a'r lleiafswm yw £3,454. Mae Ysgol Clydau yn y 13eg safle o'r 61 ysgol gynradd yn Sir Benfro o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn adeiladu ar y wybodaeth sydd ganddynt er mwyn datblygu medrau newydd
- rhan fwyaf y disgyblion, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn gallu tynnu gwybodaeth allan o lyfr gan ddefnyddio'u uwch fedrau darllen yn effeithiol
- llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn fedrus wrth amcangyfrif, yn rhesymu eu hatebion yn aeddfed ac yn ddefnyddio geirfa fathemategol yn naturiol
- lefelau cymhelliant mwyafrif y disgyblion yn dda ac maent yn awyddus iawn i gwblhau eu gweithgareddau
- staff yn darparu ystod eang o glybiau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu disgyblion yn dda

Fodd bynnag:

- mae gan y disgyblion duedd i or-ddefnyddio geirfa Saesneg wrth gynnal trafodaethau gydag oedolion a chyfoedion
- nid yw'r disgyblion yn derbyn cyfleoedd digon cyson i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm
- nid yw'r athrawon bob amser yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigon llwyddiannus

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion
- y pennaeth wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio effeithiol fel tîm ymysg y staff, sy'n ysgogi awyrgylch hapus a gweithgar
- egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n gadarn
- aelodau'r corff llywodraethol yn gweithredu'n briodol
- trefniadau addas yn bodoli i fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion
- y ddogfen hunanarfarnu yn arfarnol ac yn nodi cryfderau a nifer o agweddau priodol i'w datblygu yng nghynllun gwella presennol yr ysgol

Fodd bynnag:

- nid yw'r broses hunanarfarnu wedi adnabod y diffygion yng nghynlluniau cwricwlaidd yr ysgol yn ddigon cynnar
- mae arweinwyr yn rhy ddibynnol ar adroddiadau monitro swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm i gefnogi'r gweithdrefnau arfarnu

## Argymhellion

A1 Gwella safon iaith lafar Cymraeg y disgyblion

A2 Sicrhau cyfleoedd i ddatblygu medrau'r disgyblion ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd wedi eu hymgorffori'n llawn yng nghynlluniau'r ysgol, a'u bod yn cael eu gweithredu'n briodol

A4 Sicrhau bod yr addysgu yn herio'r disgyblion mwy abl ar draws yr ysgol

A5 Cryfhau'r arweinyddiaeth i weithredu'n fwy strategol

A6 Sicrhau bod gweithdrefnau hunanarfarnu yn effeithiol ac yn arwain at welliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau’r ysgol gyda gallu sy’n gyfystyr â’r hyn sy’n ddisgwyliedig ar gyfer eu hoed ac maent yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dwyn i gof dysgu blaenorol yn dda ac yn adeiladu ar y wybodaeth sydd ganddynt er mwyn datblygu medrau newydd.

Mae safonau medrau llafar llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn datblygu’n briodol. Maent yn cyfathrebu’n hyderus ac yn defnyddio ystod o eirfa addas wrth siarad yn anffurfiol. Fodd bynnag, mae yna duedd i or-ddefnyddio geirfa Saesneg wrth gynnal trafodaethau gydag oedolion a chyfoedion. Mae llawer yn dangos hoffter at ddarllen ac yn datblygu medrau sy’n eu galluogi i adeiladu a chlymu geiriau a brawddegau yn annibynnol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn ysgrifennu’n annibynnol yn lled gywir at wahanol ddibenion ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu chwedl, adolygiad o’u hoff lyfr, a chyfarwyddiadau ar sut i wneud crempog yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion mwy abl eu gallu yn hyderus wrth ddefnyddio ffurf negyddol y ferf nac wrth osod prif lythyren ar ddechrau brawddeg.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 mae llawer o ddisgyblion yn cynnal sgyrsiau addas yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae’r tuedd i lithro geiriau Saesneg i’w sgwrs yn parhau, a chaiff hyn effaith ar gywirdeb eu hiaith lafar ac ysgrifenedig. Mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon, gan amrywio goslef llais yn addas i greu naws. Maent yn gallu dod o hyd i wybodaeth mewn llyfrau gan ddefnyddio uwch fedrau darllen yn effeithiol. Mae llawer yn gallu enwi a thrafod gwaith gwahanol awduron gan ddangos hoffter at rai’n fwy na’i gilydd. Ar draws cyfnod allweddol 2 mae disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu’n briodol mewn ystod o ffurfiau, er enghraifft portread o Rhiwallon, a disgrifiad o’u hoff le. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn ysgrifennu’n estynedig i safon briodol gan ddefnyddio paragraffau i gyflwyno’u gwaith yn drefnus. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl eu gallu yn defnyddio ystod o frawddegau diddorol sy’n Gymreig eu naws yn eu darnau ysgrifenedig.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau llafar yn gynyddol hyderus yn y Saesneg. Maent yn medru darllen i safon sydd o leiaf yn cyfateb i’w hoed, gan amrywio goslef eu llais yn briodol er mwyn cyfleu ystyr. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall y rhan fwyaf ysgrifennu’n estynedig yn llwyddiannus mewn ystod o gyd-destunau. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio’r medrau hyn yn ddigon rheolaidd mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio strategaethau rhif syml yn gywir yn eu gwaith. Gall y mwyafrif lunio graff bar syml gydag arweiniad a thynnu gwybodaeth berthnasol ohono. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio uned safonol gywir wrth fesur ac yn datrys problemau rhifiadol yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw’r gwaith ar ddatrys y broblem am nifer yr wyau gaiff eu dodwy gan adar. Er hynny, nid yw’r disgyblion mwy abl eu gallu yn gwneud digon o gynnydd yn eu gwaith mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau rhif, ac erbyn diwedd y cyfnod mae'r rhan fwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio ystod eang ohonynt i ddatrys problemau rhifiadol.  Mae llawer o ddisgyblion yn fedrus wrth amcangyfrif, gan resymu eu hatebion yn aeddfed a chan ddefnyddio geirfa fathemategol yn naturiol.

Er bod medrau ieithyddol a mathemategol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn, nid ydynt yn eu cymhwyso'n ddigon rheolaidd mewn meysydd eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Yn aml, dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2. O ganlyniad, nid yw'r tueddiadau ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion nac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol yn ddibynadwy.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae tuedd i berfformiad disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y lefel ddisgwyliedig fod yn yr 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg mewn pob un o'r meysydd dysgu.  Fodd bynnag, yn 2015, roedd perfformiad y disgyblion mewn iaith wedi disgyn i'r 25% isaf.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig yn amrywio ym mhob un o'r pynciau craidd dros bedair blynedd, gyda pherfformiad mewn Cymraeg yn gyson yn y 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg.  Mae perfformiad ar y lefelau uwch yn gyson is na'r canolrif dros yr un cyfnod.

Nid oes gwahaniaeth nodedig rhwng perfformiad bechgyn a merched ar y lefelau disgwyliedig nac ar y lefelau uwch mewn mathemateg.  Fodd bynnag, mae merched yn perfformio'n gyson uwch na'r bechgyn mewn Cymraeg a Saesneg dros gyfnod ar y lefelau uwch.

Niferoedd bychain o ddisgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, felly nid yw'n ddibynadwy cymharu eu perfformiad â pherfformiad y disgyblion hynny sydd ddim yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

**Lles:  Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth dda o'r angen i feithrin arferion personol iach gan gynnwys ffitrwydd.  Mae bron pob disgybl yn teimlo bod yr ysgol yn eu hannog i fyw yn iach ac yn eu haddysgu am bwysigrwydd cadw'n iach.  Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor pan fo angen.  Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd diogelwch ar y we, ac yn gweithredu ar hyn yn llwyddiannus.

Mae lefelau cymhelliant mwyafrif y disgyblion yn dda ac maent yn awyddus iawn i gwblhau eu gweithgareddau.  Mae llawer ohonynt yn cydweithio'n effeithiol ac mae safonau ymddygiad yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol yn gyffredinol dda.

Mae lefelau presenoldeb yr ysgol yn dda iawn, ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn yr 50% uwch neu'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn flaengar ac yn gweithredu'n effeithiol yng ngweithgareddau'r ysgol ac yn y gymuned ehangach. Er enghraifft, maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer elusennau amrywiol. O ganlyniad, mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o anghenion eraill sy'n llai ffodus na nhw. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r corff llywodraethol yn rheolaidd.

Mae gan y disgyblion rôl weithredol ym mhenderfyniadau'r gymuned. Maent wedi cyfrannu syniadau gwerthfawr tuag at greu parc cymunedol newydd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae athrawon yn cynllunio profiadau sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn briodol ac yn ymateb i egwyddorion y Cyfnod Sylfaen, a gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol a'r maes llafur cytûn ar gyfer addysg grefyddol. Lle mae'r cynllunio yn fwyaf effeithiol, mae pwyslais ar gyflwyno cwricwlwm ymarferol, sy'n ennyn brwdfrydedd ymysg y disgyblion. Mae'r ysgol wrthi'n addasu ei chynlluniau gwaith er mwyn ymateb i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau cyfredol yn ddigon clir nac yn dangos digon o ddilyniant na pharhad yn y medrau. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd na thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o glybiau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn dda, yn enwedig ar gyfer byw'n iach a chadw'n heini, er enghraifft clwb coginio, clwb pêl droed a phêl rwyd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dysgu am y dimensiwn Cymreig yn gadarn. Trwy astudio hanes lleol a bywyd a gwaith Cymry enwog fel T Llew Jones a Merched Beca, mae dealltwriaeth y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru yn datblygu'n dda. Mae ystod o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau dysgu yn effeithiol, er enghraifft ymweliad â Chastell Henllys wrth astudio'r Celtiaid.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r broses ailgylchu yn effeithiol wrth i ddisgyblion penodol gymryd cyfrifoldeb amdano. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang trwy waith thema ar dwrnamaint pêl droed Euro 2016, er enghraifft.

**Addysgu: Digonol**

Ar y cyfan, mae gan yr athrawon berthynas waith effeithiol gyda'r disgyblion. O fewn yr ystafell ddosbarth, fe gefnogir y disgyblion yn effeithiol gan y cynorthwywyr.

Yn yr ychydig wersi lle mae'r addysgu mwyaf effeithiol, ceir cyflwyniadau diddorol gan yr athrawon sy'n ennyn diddordeb y disgyblion yn dda. Mae athrawon yn holi'n fedrus ac yn galluogi'r disgyblion i ymhelaethu ac esbonio eu hatebion yn llwyddiannus. Mae athrawon yn paratoi gweithgareddau'n briodol i ymateb i anghenion penodol mwyafrif y disgyblion. Lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw'r tasgau bob amser yn herio'r disgyblion mwy abl yn ddigon llwyddiannus. Mae gor-gyfarwyddo mewn llawer o'r gwersi hyn yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i gymryd rôl weithredol yn eu dysgu eu hunain.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith ac yn dechrau cael effaith gadarn ar safonau llythrennedd. Fodd bynnag, anghyson yw'r defnydd ohonynt ar draws yr ysgol. Mae'r athrawon yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau sy'n cael eu cynnig yn gryno ac yn adeiladol. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod briodol o ffynonellau data a phrofion cenedlaethol i olrhain datblygiad pob disgybl. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn ddigon effeithiol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol iddynt ar gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar. Mae'n gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach trwy amrywiaeth o weithgareddau mewnol ac allgyrsiol.

Mae'r cyfnodau o gyd-addoli yn cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn dda. Mae'r ysgol yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn gyson, drwy arddangos gwobrau a chanmol mewn gwasanaethau. Maent hefyd yn annog presenoldeb uchel drwy wobrwyo disgyblion â thystysgrifau a medalau. O ganlyniad, mae presenoldeb yr ysgol yn gyson dda. Mae'n hybu datblygiad cymdeithasol y disgyblion yn effeithiol drwy amrywiol weithgareddau fel cyd-gynllunio parc y pentref a'u datblygiad diwylliannol drwy ymweliadau â gwersyll Llangrannog a'u gwaith ar y Celtiaid.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol ag ystod o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel y seicolegydd addysg a nyrs yr ysgol. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad o ansawdd da i ddisgyblion a staff pan fo angen.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn defnyddio dulliau priodol i adnabod anghenion y disgyblion ac yn paratoi cynlluniau addysg unigol iddynt yn ôl yr angen. Mae disgyblion, athrawon a staff ategol yn cydweithio'n effeithiol ar y cynlluniau hyn. Mae'r cynlluniau unigol yn benodol a'r targedau yn fesuradwy. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n gyson mewn ymgynghoriad â'r rhieni a'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae'r oedolion a'r disgyblion yn ymdrin â'i gilydd gyda pharch a gofal. Mae polisïau a gweithdrefnau yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i'r ddarpariaeth a chaiff disgyblion eu trin yn gyfartal yn holl weithgareddau'r ysgol.

Mae'r staff a'r disgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a thir yr ysgol i gyfoethogi'r dysgu. Mae'r cae a'r offer chwarae yn cynnig digon o le ac amrywiaeth i ddisgyblion chwarae. Mae'r ganolfan gymunedol sydd ar dir yr ysgol yn cael ei defnyddio'n achlysurol ganddynt ar gyfer gweithgareddau addysg gorfforol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles disgyblion. Mae'r ardaloedd allanol wedi eu datblygu'n llwyddiannus, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen lle mae adnoddau creadigol a phwrpasol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol. Caiff yr adeilad a'r iard chwarae eu cynnal a'u cadw yn raenus.

Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn ddeniadol a threfnus ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd o ansawdd da. Mae cydbwysedd priodol o arddangosfeydd sy'n cefnogi'r dysgu ynghyd â rhai sy'n dathlu llwyddiannau a gwaith y disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar godi safonau a sicrhau lles disgyblion. Mae wedi ei rhannu gyda staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr yn llwyddiannus. Mae'r arweinyddiaeth ofalgar hon yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i holl waith yr ysgol. Mae'r pennaeth wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio tîm effeithiol ymysg y staff sy'n ysgogi awyrgylch hapus a gweithgar. Mae arweinwyr yr ysgol wedi gosod nifer o strategaethau cadarn ar waith er mwyn codi safonau a gwella darpariaeth. Enghraifft dda o hyn yw'r modd effeithiol mae'r Cyfnod Sylfaen yn gweithredu.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn gyfredol ac yn nodi eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae strwythur staffio'r yn caniatáu i'r holl athrawon gymryd cyfrifoldebau am agweddau penodol o waith yr ysgol. Mae'r cydlynwyr pwnc yn cymryd rôl weithredol mewn prosesau monitro. Er bod ganddynt ymwybyddiaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella, nid oes ganddynt drosolwg ddigon cadarn o safonau ar draws yr ysgol er mwyn arwain gwelliannau mewn meysydd pwysig fel llythrennedd a rhifedd.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gadarn ar waith, ac mae'n rhoi sylw dyledus i weithgareddau i fynd i'r afael ag amddifadedd disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi bod yn rhy araf i ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn ei chynlluniau gwaith.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol gan gyflawni eu dyletswyddau'n briodol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o gymharu ag ysgolion y teulu ac ysgolion tebyg yn dda. Mae hyn yn eu galluogi i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad ac i fonitro'r gweithdrefnau sydd ar waith. O ganlyniad, mae eu rôl ym mhrosesau'r strategol yr ysgol yn datblygu'n dda. Trwy gymryd rhan weithredol ym mhrosesau monitro'r addysgu a'r dysgu, maent yn cael mewnbwn yn y broses o lunio adroddiad hunanarfarnu, ac wrth osod cynlluniau ar gyfer gwelliant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau addas i fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau disgyblion. Yn gyffredinol, mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r broses fonitro ychydig yn ddisgrifiadol, ac nid ydynt bob amser yn ddigon dadansoddol. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon clir ar safonau a deilliannau disgyblion, ac nid yw'r broses wedi adnabod y diffygion yng nghynlluniau cwricwlaidd yr ysgol. Mae arweinwyr yn rhy ddibynnol ar adroddiadau monitro swyddogion yr awdurdod lleol a'r consortiwm i gefnogi'r gweithdrefnau hyn yn effeithiol.

Fodd bynnag, mae gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr, ar y cyfan, ddarlun priodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod briodol o dystiolaeth, gan gynnwys data cyrhaeddiad, deilliannau prosesau monitro, ymatebion holiaduron disgyblion a barn rhieni. Yn gyffredinol, mae'r ddogfen yn arfarnol, ac yn nodi cryfderau a nifer o agweddau priodol i'w cynnwys fel blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae cyswllt lled agos yn bodoli rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun gwella ysgol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'n cynnwys strategaethau priodol ar gyfer gweithredu, ynghyd â meini prawf llwyddiant addas a threfniadau monitro. Fodd bynnag, nid yw'r targedau a'r gweithgareddau bob amser yn ddigon penodol. O ganlyniad, nid yw'n hawdd i arweinwyr adolygu'r cynnydd yn ddigon effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod eang o bartneriaethau sy'n cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cael effaith arwyddocaol ar y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda'r rhieni yn gryfder yn yr ysgol. Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn weithgar ac yn cyfrannu'n sylweddol at brynu adnoddau. Yn ddiweddar, maent wedi cyfrannu at brynu llechi electronig er mwyn i'r disgyblion gael mynediad cyson i feddalwedd addysgol.

Gwna'r ysgol ddefnydd addas o wasanaeth cefnogi addysg yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae dealltwriaeth y staff a'r disgyblion o ddull cyfathrebu trwy arwyddo wedi arwain at sicrhau cynhwysedd cyflawn.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan weithredol ym mywyd y pentref. Er enghraifft, mae disgyblion wedi chwarae rôl allweddol yn natblygiad parc chwarae yng nghanol y pentref mewn partneriaeth â'r Cyngor Cymuned. Mae disgyblion yn cyfrannu'n effeithiol at weithgareddau cymunedol trwy gynnal gwasanaethau diolchgarwch

mewn pedwar capel lleol yn eu tro. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd perthyn i gymuned a gweithredu'n gymunedol. Mae'r ysgol a'r gymuned yn gweithio ar y cyd i drefnu gwersi Cymraeg i ddysgwyr sy'n dechrau cael effaith ar allu'r rhieni i gefnogi datblygiad eu plant.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y dalgylch. Mae'r triawdau dysgu wedi arwain at godi safonau ysgrifennu estynedig mewn gwaith iaith a hefyd at wella dealltwriaeth o'r ddarpariaeth barhaus yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn cymedroli gwaith disgyblion yn dda ac wedi arwain y clwstwr ar y gwaith hwn mewn meysydd penodol fel mathemateg a'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgolion yn cwrdd i graffu ar waith a chytuno ar lefelau. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth yr athrawon o ofynion lefel ac wedi gwella eu hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd ar draws ysgolion. Mae trefniadau trosglwyddo effeithiol yn bodoli gyda thair ysgol uwchradd sy'n paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel uchel o staff, a defnyddir cynorthwywyr yn effeithiol i gefnogi unigolion a grwpiau o ddysgwyr. Mae arweinwyr wedi cymryd camau penodol yn ddiweddar i ailstrwythuro staffio'r ysgol er mwyn ymateb yn fwy priodol i niferoedd y disgyblion. Defnyddir arbenigedd athrawon yn llwyddiannus i gyfoethogi agweddau o'r cwricwlwm fel mathemateg, llythrennedd a cherddoriaeth.

Mae'r prosesau ar gyfer rheoli perfformiad yr holl staff yn effeithiol ac yn arwain at bennu targedau priodol sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau gwella'r ysgol a datblygiad proffesiynol unigolion. Enghraifft dda o hyn yw'r hyfforddiant parhaus mae'r cynorthwywyr yn ei dderbyn i'w galluogi i gefnogi disgyblion ag anghenion penodol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau pwrpasol ar gyfer darparu amser cynllunio, paratoi ac asesu i athrawon.

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus o fewn cymunedau dysgu proffesiynol rhifedd gydag ysgolion clwstwr y Preseli i ddatblygu medrau datrys problemau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Mae hyn wedi arwain at welliant yng ngwaith rhifedd rhan fwyaf y disgyblion.

Mae arweinwyr yn cydweithio'n effeithiol gyda swyddog cyllid yr awdurdod lleol i reoli'r cyllid. Mae penderfyniadau gwariant yn cysylltu'n addas â blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl o'r gwariant.

Gwneir defnydd addas o'r Grant Amddifadedd i ddatblygu lles disgyblion drwy gefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddysgwyr. Caiff y gwariant ei fonitro'n ofalus gan arweinwyr yr ysgol. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

O ystyried deilliannau disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6682385 - Ysgol Clydau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 53 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | 5 | * | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 66.7 | 100.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 5 | * | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 66.7 | 100.0 | * | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.3 | 40.0 | * | 8.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | * | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 5 | * | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.3 | 40.0 | * | 25.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | * | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 5 | * | 12 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 100.0 | * | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 8.3 | 80.0 | * | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | * | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6682385 - Ysgol Clydau**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 53 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 7.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 13 | 7 | 10 | * |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 92.3 | 100.0 | 90.0 | * |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | * |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 7 | 10 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 90.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 4 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | * | * | * |
| Chwartel meincnod | 3 | * | * | * |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 7 | 10 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 84.6 | 85.7 | 90.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 7 | 10 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 100.0 | 90.0 | * |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | 50.0 | * |
| Chwartel meincnod | * | * | 2 | * |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 7 | 10 | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | * |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 37 | 35<br>95%<br>98% | 2<br>5%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 37 | 26<br>70%<br>92% | 11<br>30%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 37 | 35<br>95%<br>97% | 2<br>5%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 37 | 34<br>92%<br>97% | 3<br>8%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 37 | 35<br>95%<br>96% | 2<br>5%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 37 | 30<br>81%<br>96% | 7<br>19%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 37 | 36<br>97%<br>99% | 1<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 37 | 34<br>92%<br>98% | 3<br>8%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 37 | 29<br>78%<br>91% | 8<br>22%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 37 | 37<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 37 | 13<br>35%<br>77% | 24<br>65%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 37 | 17<br>46%<br>84% | 20<br>54%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 17 | 14 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 82% | 18% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 100% | 0% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 17 | 16 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 94% | 6% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 17 | 12 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 17 | 8 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 47% | 53% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 16 | 12 | 4 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 17 | 13 | 3 | 0 | 1 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 76% | 18% | 0% | 6% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 17 | 12 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 71% | 29% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 14 | 11 | 3 | 0 | 0 | 3 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 17 | 13 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 12<br>80% | 3<br>20% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 17 | 13<br>76% | 4<br>24% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 14 | 9<br>64% | 5<br>36% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 17 | 17<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 55% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 17 | 15<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Gwenda Easton | Arolygydd Cofnodol |
| Anwen Griffith | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Madoc-jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Sion Jones | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.